ELGC COV 43
Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith Inquiry
into COVID-19 and its impact
Ymateb gan: The Wallich
Reponse from: The wallich

thewallich
atal digartrefedd • preventing homelessness

# Sut yr ydym wedi ymateb i COVID-19



# Ynglŷn â'r Wallich

Mae'r Wallich am greu Cymru lle mae pobl yn gweithio gyda'i gilydd i roi gobaith, cymorth a datrysiadau i roi diwedd ar ddigartrefedd.

Fel elusen fwyaf Cymru sy'n mynd i'r afael â digartrefedd a chysgu allan, mae'r Wallich yn gweithio'n ôl tri amcan craidd: cael pobl oddi ar y strydoedd; cadw pobl oddi ar y strydoedd; a chreu cyfleoedd i bobl.

Gan redeg 68 o brosiectau amrywiol, mewn 18 awdurdod lleol, mae'r Wallich yn gweithio â mwy na 9,000 o bobl ddigartref ac agored i niwed bob blwyddyn yng Nghymru.

## Sut oedd ein gwasanaethau yn edrych cyn y Pandemig Coronafeirws

1. Yn yr hen ddyddiau (h.y. cyn cyflwyno'r cyfyngiadau symud ar 23 Mawrth 2020), roedd y Wallich yn rhedeg amrywiaeth eang o brosiectau a gwasanaethau yng Nghymru, gan gynnwys llety â chymorth, allgymorth, gwasanaethau cynghori ac eiriolaeth, cymorth fel bo'r angen, a dysgu a datblygu sgiliau ar gyfer cyflogaeth.
2. Mae'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau'n cael eu comisiynu gan awdurdodau lleol Cymru drwy'r Grant Cymorth Tai (HSG), yn ogystal â rhai gwasanaethau sy'n cael eu hariannu'n rhannol neu'n gyfan gwbl drwy weithgareddau codi arian yr elusen.
3. Rydym hefyd yn darparu nifer o wasanaethau mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Er enghraifft, rydym yn rheoli prosiect Tai yn Gyntaf yn Abertawe mewn partneriaeth â'r elusen camddefnyddio sylweddau Kaleidoscope, ac mae ein prosiect Adeiladu Cyfleoedd, Sgiliau a Llwyddiant (BOSS) yn cydweithio'n agos â Charchar Caerdydd, Carchar y Parc a'r gwasanaeth prawf yn gyffredinol.
4. Mae ein swyddfeydd canolog yng Nghaerdydd, lle mae tua 30 o staff yn rheoli cyllid, adnoddau dynol, cyfleusterau, yn gweinyddu codi arian a chyfathrebu, yn ogystal â chynnal sesiynau hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.

## Y camau a gymerwyd gennym ar unwaith i ddiogelu defnyddwyr gwasanaeth a staff

5. Yn ystod pythefnos cyntaf Mawrth, aeth ein tîm uwch reolwyr ati i ddatblygu Cynllun Rheoli Risg COVID-19, a oedd yn cynnwys cyfres o gamau i'w cymryd ar unwaith i liniaru risgiau o heintio yn seiliedig ar yr hyn oedd yn hysbys ar y pryd, a chymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau lle'r oedd hynny'n bosibl.
6. Yn yr wythnos yn dechrau ar 16 Mawrth, yn unol â'r cyngor swyddogol, cynghorwyd yr holl staff, a allai wneud hynny, i weithio o gartref; roedd hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o'r staff gwasanaethau canolog, yn ogystal â'r rhai oedd yn gweithio mewn lleoliadau gwasanaethau lle bo'r angen.
7. Erbyn 23 Mawrth, roedd pob un o'n 24 o brosiectau wedi eu cau'n ffurfiol. Roedd y rhai a oedd yn dal ar agor yn cynnwys ein holl brosiectau llety preswyl â chymorth, gan mai ein blaenoriaeth bennaf oedd sicrhau bod y rhai a oedd yn cael eu cartrefu'n uniongyrchol gennym yn gallu aros yn ddiogel yn eu cartrefi yn ystod y pandemig.
8. Bu'n rhaid i'r rhan fwyaf o'n prosiectau eraill newid eu ffordd o weithio yn sylweddol. Er enghraifft, dechreuodd ein gweithwyr cymorth tenantiaeth gynnig cyngor drwy alwadau ffôn neu fideo rheolaidd â chleientiaid, dechreuodd ein Rhwydwaith Myfyrio (ein gwasanaeth cwnsela mewnol) drefnu apwyntiadau dros y ffôn yn unig, ac roedd ein mentoriaid cymheiriaid yn cynnig gwasanaeth cyfeillio dros y ffôn.
9. Daeth cyfarfodydd wyneb yn wyneb â chleientiaid i ben fwy neu lai'n gyfan gwbl heblaw mewn argyfwng, ac roedd hynny'n gryn her i rai o'n defnyddwyr gwasanaeth â'r anghenion mwyaf cymhleth.

10. Cafodd llety ein Lloches Nos yng Nghaerdydd ei ad-drefnu i fod ar gael 24/7, er bod nifer y lleoedd a oedd ar gael gryn dipyn yn llai i sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol rhwng cleientiaid a staff. Er enghraifft, cyn y pandemig roeddem yn gallu cynnig 23 o welyau argyfwng dros nos, ond yn awr nid ydym yn gallu cymryd mwy na 10 o unigolion; fodd bynnag, mae'r rhain yn gallu aros yno yn ystod y dydd hefyd.
11. Bu'n rhaid i bob adeilad a oedd yn dal ar agor gael asesiad risg trylwyr, a chyflwynwyd mesurau i gadw pellter o ddwy fetr rhwng staff a chleientiaid gydol yr amser. Cafodd staff hefyd gyfarpar diogelu personol (PPE0 yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.
12. Diolch i waith caled awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector, llwyddwyd i ddod o hyd i lety argyfwng i fwyafrif llethol y rhai a oedd yn cysgu allan erbyn dechrau Ebrill. Felly, nid oedd cymaint o angen i'n timau allgymorth ddarparu eu gwasanaeth brecwast arferol ar strydoedd dinasoedd Cymru. Symudwyd nifer o staff i gynorthwyo gyda'n gwasanaethau preswyl, a gwaith allgymorth i helpu cleientiaid i aros yn eu llety dros dro drwy ddarparu prydau bwyd poeth, a dosbarthu eitemau a roddwyd fel rhoddion i gadw pobl yn ddiddan.

## Ymateb y sector tai a chymorth digartrefedd

13. Mae ymateb y sector tai a chymorth digartrefedd wedi bod yn eithriadol o bositif ar y cyfan. O'r cychwyn cyntaf, roeddem mewn cysylltiad parhaus â phartneriaid gan gynnwys Cymorth Cymru a Chyfarwyddiaeth Dai Llywodraeth Cymru, i ddeall sut yn union yr oedd angen inni newid ein ffordd o weithio i gadw pawb yn ddiogel.
14. Yr enghraifft fwyaf amlwg o hyn fyddai ein gwaith mewn partneriaeth â Chymorth Cymru a mudiadau trydydd sector eraill, lle'r oeddem yn gallu rhannu ein pryderon gweithredol yn uniongyrchol â Llywodraeth Cymru, a oedd wedyn yn mynd ati i gynhyrchu canllawiau clir iawn a oedd yn ateb ein cwestiynau, ac a oedd wedi'u hategu gan arbenigedd Iechyd Cyhoeddus Cymru.
15. Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd am y cymorth parhaus a gafwyd gan bob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru rydym yn gweithio â hwy. Roedd y gwaith o ganfod llety argyfwng i bob unigolyn a oedd wedi bod yn cysgu allan yn enghraifft wirioneddol o gydweithredu, ac ni fyddem wedi gallu cyflawni hynny heb barodrwydd yr awdurdodau lleol a'u ffyrdd arloesol o gomisiynu.
16. Astudiaeth achos sy'n enghraifft o'r dull hwn o weithio yw'r llety newydd yn Nhŷ Tom Jones yn Abertawe. Roedd hon yn ymdrech gydweithredol arbennig rhwng Cyngor Abertawe, y Wallich, Caer Las, a'r landlordiaid Grŵp Pobl, i addasu adeilad gwag i ddarparu 20 o unedau llety hunangynhaliol i rai a fu'n cysgu allan cyn y cyfyngiadau symud.
17. Rydym yn ddiolchgar hefyd am y gefnogaeth a gafwyd gan bartneriaid i gael gafael ar gyfarpar Diogelu Personol (PPE), yn enwedig yn nyddiau ac wythnosau cyntaf yr argyfwng. Un o'r pethau cyntaf yr oeddem am ei gael gan y llywodraeth a phartneriaid oedd sicrwydd y byddai ein staff yn gallu cael y PPE oedd ei angen

arnynt i barhau i wneud eu gwaith yn ddiogel. Roedd Cymorth, Llywodraeth Cymru ac eraill yn werthfawr iawn drwy gydlynu cyflenwadau PPE i staff ar draws y sector.

## Yr heriau rydym wedi eu hwynebu

18. Fel sefydliad, rydym wedi wynebu nifer o heriau sylweddol drwy gydol yr argyfwng Coronafeirws. Nid yw'r isod yn rhestr gyflawn, o bell ffordd.
19. Mae ein staff wedi nodi sawl enghraifft o anawsterau a brofwyd wrth geisio meithrin a chynnal perthnasoedd positif â'u cleientiaid. Gan fod mwyafrif llethol y cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi gorfod dod i ben, mae wedi bod yn llawer anos ennill ymddiriedaeth a dealltwriaeth nag o'r blaen, ac nid yw mor hawdd i staff allu synhwyro cliwiau di-eiriau am lesiant corfforol a meddyliol eu cleientiaid. Mae rhai o'r bobl yr ydym yn eu helpu'n llai hyderus nag eraill i siarad dros y ffôn.
20. Yn ein prosiectau preswyl, mae wedi bod yn hynod o anodd ceisio perswadio ein preswylwyr i aros i mewn a chydymffurfio â rheolau cadw pellter cymdeithasol. Mae natur ein prosiectau yn golygu bod llawer o'r bobl rydym yn gweithio â hwy yn byw bywydau digon anhrefnus yn aml ac maent wedi arfer mynd allan a chymdeithasu â rhwydwaith cymorth o gymheiriaid. Rydym wedi gwneud ein gorau i'w cadw'n ddiddan dan do, drwy ddarparu Wi-fi, setiau teledu, pecynnau gweithgarwch gan gynnwys posau ac ymarfer corff, a phrydau bwyd poeth yn ddyddiol.
21. Ar ddechrau'r argyfwng, roeddem yn poeni'n fawr am adroddiadau cenedlaethol am brinder o PPE a phrofion i weithwyr rheng flaen, ac roedd mynediad amserol at y rhain yn un o'r pethau pwysicaf y gofynnwyd amdanynt i Lywodraeth Cymru a phartneriaid yn ystod wythnosau cyntaf y cyfyngiadau symud. Er bod ein staff wedi cael cadarnhad cynnar eu bod yn gymwys fel 'Gweithwyr Allweddol' i gael blaenoriaeth ar gyfer profion, roedd llawer o'n staff yn teimlo bod y cyflenwadau PPE a'r gallu i brofi yn rhy araf i ateb y galw yn ystod uchafbwynt y pandemig.
22. Un broblem benodol a brofwyd oedd cyfathrebu aneffeithiol â Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi ynglŷn â'r cynllun rhyddhau cynnar i garcharorion a oedd yn nesáu at ddiwedd eu dedfryd, er mwyn lleihau'r risg o heintiad ar ystâd y carchardai. Rydym yn gwneud llawer o waith â charchardai Cymru i sicrhau nad yw unigolion yn cael eu rhyddhau i ddigartrefedd, ac er ein bod yn cefnogi'r polisi, mae wedi bod yn anodd ceisio deall pa unigolion yn union fyddai'n cael eu hystyried ar gyfer rhyddhau cynnar, ac felly nid oedd modd creu cynllun cymorth mewn modd amserol ar eu cyfer.
23. Pryder arall a godwyd droeon gan staff yw bod arafwch y farchnad dai yn rhwystro pobl rhag symud ymlaen o lety dros dro neu argyfwng. Er ei bod yn gallu bod anodd dod o hyd i gartref priodol am rent ar y gorau, mae cau llawer o'r sectorau rhentu preifat a chymdeithasol wedi golygu i bob pwrpas bod unigolion yn aros yn llawer hwy na'r angen mewn llety dros dro, sy'n golygu nad oes lle wedyn i bobl newydd sy'n cael eu hatgyfeirio.
24. Fel sy'n digwydd yn achos llawer o'r sefydliadau partner rydym yn arfer gweithio â hwy, mae llai o staff a chau gwasanaethau dros dro wedi ei gwneud yn arbennig o

anodd i gael mynediad at wasanaethau cam-drin sylweddau ac iechyd meddwl arbenigol ar gyfer ein cleientiaid. Mae'r pandemig a'r cyfyngiadau symud yn naturiol wedi gwneud pethau'n waeth o ran iechyd meddwl a cham-drin sylweddau ymhlith ein defnyddwyr gwasanaeth, ac mae ein staff yn parhau'n bryderus dros ben am nad ydynt yn gallu cael y cymorth arbenigol sydd ei angen arnynt.

25. Hefyd, mae iechyd meddwl a morâl staff yn ein holl wasanaethau wedi dioddef, gan ein bod wedi gorfod addasu i weithio'n wahanol, yn aml heb y gefnogaeth emosiynol arferol gan gydweithwyr. Lle mae timau wedi bod yn gweithio o gartref, mae staff wedi bod yn cadw cysylltiad drwy dechnoleg fel Microsoft Teams, ond i rai unigolion ni all galwadau fideo gymryd lle sgyrsiau a chefnogaeth wyneb yn wyneb rheolaidd.
26. Yn olaf, bu'n rhaid inni ganslo nifer o ddigwyddiadau codi arian a oedd wedi'u trefnu ar gyfer 2020, sy'n golygu ein bod wedi colli incwm sylweddol ar adeg pan welwyd ein costau'n codi. Er ein bod yn cael cyfran sylweddol o'n cyllid drwy grantiau awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru (ac o'r herwydd nid ydym wedi dioddef cymaint ag elusennau eraill yn y sector), lansiwyd ein hymgyrch codi arian 'Rebuild 2020' mewn ymateb i'r her ariannol sylweddol i fantoli ein hincwm a'n gwariant drwy gydol y cyfnod hwn.

## Sut yr ydym yn bwriadu adfer ein gwasanaethau

27. Ganol mis Mai 2020, bu ein Tasglu COVID-19 yn datblygu strategaeth adfer i'r sefydliad, i gynllunio ar gyfer ailagor gwasanaethau sydd wedi'u cau dros dro pan fydd cyngor Llywodraeth Cymru'n newid. Mae'r cynllun hwn yn dangos yn union pa weithgareddau fydd yn cychwyn yn ystod y cyfnod llacio o statws 'Coch', i 'Oren', 'Melyn', 'Gwyrdd', ac yna Porffor yn y diwedd, a fydd yn dangos ein bod wedi dychwelyd i fusnes fel arfer.
28. Mae'r strategaeth adfer yn dangos yn union sut fydd adferiad yn edrych i bob math o wasanaeth – preswyl, allgymorth, canolfannau galw i mewn, a chymorth lle bo'r angen, yn ogystal â chyfranogiad a chynnydd a gwasanaethau canolog. Hefyd, mae gan lawer o brosiectau eu cynlluniau penodol eu hunain.
29. Rhagwelir na fydd yr holl wasanaethau'n gallu ailagor ar yr un cyflymder. Rydym hefyd wedi ceisio datblygu ein cynlluniau i fod mor hyblyg â phosibl, fel y bydd modd cyflymu neu arafu camau, neu hyd yn oed eu dadwneud os bydd angen.
30. Mae enghreifftiau o gamau yn ein cynllun adfer yn cynnwys cynyddu nifer y staff a fydd yn dychwelyd i swyddfeydd a phrosiectau preswyl, gweithredu ac yna llacio mesurau cadw pellter cymdeithasol, defnyddio gofod awyr agored a chymunedol, newid rotas staff, ac ailgyflwyno mwy o weithgarwch cymorth i ddefnyddwyr gwasanaeth gan gydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol.
31. Drwy gydol y cyfnod hwn rydym wedi ymgynghori â staff yn ystod pob cam i sicrhau eu bod yn deall cynnwys ein cynlluniau a'u bod yn hapus â hwy. Heb ymroddiad ac aberth ein staff, ni fyddem wedi gallu ymdopi â'r pandemig gystal ag yr ydym wedi'i wneud fel sefydliad, a byddwn yn gwneud popeth a allwn i helpu ein timau i ddychwelyd yn ddiogel i'w gwaith.

## Yr effeithiau tymor hir ar y bobl rydym yn gweithio â hwy ac ar ein gwasanaethau

32. Rydym yn rhagweld y bydd y pandemig coronafeirws yn cael effeithiau tymor hir sylweddol ar y bobl rydym yn gweithio â hwy, ar ein gwasanaethau, ac ar y sector digartrefedd a chymorth tai'n fwy cyffredinol. Bydd rhai o'r effeithiau hyn yn rhai byd-eang, a bydd eraill yn fwy penodol i gyd-destun Cymru a'r DU.
33. Yn gyntaf, rydym yn rhagweld ergyd economaidd sylweddol a all arwain at ddirwasgiad difrifol am fisoedd, os nad blynyddoedd. Yn ystod dirwasgiadau, rydym fel arfer yn gweld swyddi'n cael eu colli, cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus a chystadleuaeth am adnoddau, ac o ganlyniad cynnydd mewn aelwydydd bregus ac mewn digartrefedd. Rydym yn bryderus dros ben ynglŷn â nifer yr aelwydydd na fydd yn gallu fforddio talu eu rhent neu daliadau morgais am y tro cyntaf, ac rydym yn galw ar bob lefel o lywodraeth i wneud popeth posibl i helpu'r bobl hyn cyn iddynt gael eu gwneud yn ddigartref.
34. Gallwn hefyd ragweld cynnydd mewn digartrefedd a fydd yn ganlyniad i deuluoedd yn chwalu. Mae'r cyfyngiadau symud wedi achosi straen ofnadwy i lawer o deuluoedd, ac rydym yn pwyso ar awdurdodau lleol i wneud popeth o fewn eu gallu i ailgartrefu'r sawl nad ydynt yn gallu aros yng nghartref y teulu.
35. Er ein bod wedi croesawu'r moratoriwm a osodwyd ar orchmynion meddiannau a welir gan y system llysoedd (sydd i bob pwrpas yn gwahardd troi allan o eiddo dan rent), rydym yn poeni y gallwn weld cynnydd mawr yn nifer yr aelwydydd sy'n cael eu troi allan i ddigartrefedd cyn gynted ag y bydd y moratoriwm yn cael ei godi a bod barnwyr yn dechrau prosesu'r ôl-groniad o achosion newydd a hanesyddol. Hoffem weld Llywodraeth Cymru'n pasio a gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi 2016 ddiwygiedig cyn i'r moratoriwm gael ei godi, gyda mesurau diogelu dros dro'n cael eu rhoi ar waith os bydd angen.
36. Un o agweddau mwyaf nodedig yr ymateb i'r pandemig o gyfeiriad awdurdodau lleol fu'r ymdrech enfawr i ddarparu llety brys i dros 800 o unigolion a oedd yn cysgu allan yng Nghymru ym mis Mawrth. Drwy gyllid brys a phwerau iechyd cyhoeddus ychwanegol yn sgil Deddf Coronafeirws 2020, roedd awdurdodau lleol yn gallu defnyddio gwestai a llety gwely a brecwast gwag i ddarparu lloches ddiogel i rai heb gartref i fynd iddo i ynysu. Er ein bod yn croesawu hyn, rydym yn benderfynol na ddylai'r unigolion hyn orfod dychwelyd i'r strydoedd pan ddaw'r arian ar gyfer llety argyfwng i ben. Rhaid i awdurdodau wneud popeth posibl i ailgartrefu'r defnyddwyr gwasanaeth mewn llety cynaliadwy, a hynny ar fyrder.
37. Un o ganlyniadau positif y gwaith hwn fu cysylltiad rhai unigolion â'r gwasanaethau cymorth ers amser hir neu am y tro cyntaf hyd yn oed. Mae wedi golygu bod rhai cleientiaid ag anghenion cymhleth yn awr mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl, cam-drin sylweddau neu wasanaethau cymorth eraill am y tro cyntaf. Rydym yn gobeithio y bydd y cysylltiad hwn yn parhau am gyhyd ag y bydd angen ar ôl i'r argyfwng gilio.

38. Grŵp arall rydym yn bryderus yn ei gylch yw'r rhai hynny sydd â hawl i aros yn y DU ond heb hawl i gymorth cyllid cyhoeddus (NRPF) fel amod ar eu fisa. Rydym yn helpu nifer o gleientiaid sydd yn y sefyllfa hon, ac rydym yn poeni er eu bod yn cael cefnogaeth o dan ddeddfwriaeth iechyd cyhoeddus, nid ydynt yn gymwys i gael cymorth tai a'u bod, felly, mewn perygl mawr o ddychwelyd i'r strydoedd cyn gynted ag y bydd y pandemig drosodd. Nid yw'r polisi hwn wedi'i ddatganoli i Gymru; ac felly rydym yn galw ar Lywodraeth y DU a'r Swyddfa Gartref i ddirymu'r polisi niweidiol hwn.
39. Rydym yn gobeithio hefyd na welwn ddychwelyd at y dull gor-fiwrocrataidd o reoli achosion o ddigartrefedd cyn gynted ag y bydd gwasanaethau awdurdodau'n dod yn ôl i drefn. Rydym wedi galw yn y gorffennol am ddiddymu'r system 'angen blaenoriaethol' a'r 'rheol cysylltiad lleol' mympwyol sy'n rhwystr rhag darparu gwasanaethau cymorth tai a rhyddhau caledi.
40. Yn fwy cyffredinol, rydym yn cadw golwg fanwl ar lesiant y bobl rydym yn gweithio â hwy, ac rydym yn clywed hanesion am nifer o gleientiaid sydd wedi profi dirywiad i'w hiechyd meddwl yn ystod y cyfyngiadau presennol, ac mae'n ymddangos bod achosion o gamddefnyddio alcohol a sylweddau ar gynnydd. Gall y rhesymau am hyn fod yn amrywiaeth gymhleth o ffactorau cysylltiedig, ond rydym yn rhagweld cynnydd yn y galw am wasanaethau iechyd meddwl a cham-drin sylweddau arbenigol.
41. Ar lefel unigol, rydym wedi sylwi bod nifer o'n defnyddwyr gwasanaeth wedi colli'r cynnydd a wnaed ganddynt o ran datblygu sgiliau i fyw'n annibynnol, wrth i drefn eu bywyd newid ac am nad ydynt yn gweld cymaint ar eu gweithwyr cymorth. Mae hyn yn drueni mawr gan ein bod yn gweld cymaint o waith da'n cael ei ddadwneud wrth i arferion ac ymddygiadau anhrefnus ddod i'r amlwg eto mewn rhai achosion. Rydym hefyd wedi gweld enghreifftiau anffodus o unigolion yn llithro'n ôl o'u rhaglenni adsefydlu.
42. Gan ddychwelyd i fater dirwasgiad economaidd posibl, rydym yn poeni y bydd arafwch presennol y farchnad dai yng Nghymru'n gwaethygu, gan ei gwneud yn anos i drefnu bod ein defnyddwyr gwasanaeth yn symud ymlaen. Mae angen adeiladu rhagor o dai fforddiadwy cyn gynted â phosibl, gan mai dyna'r unig ateb tymor byr i un o brif achosion digartrefedd. Hoffem annog awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a chwmnïau adeiladu i barhau â'u cydweithrediad positif ac i weithio mewn partneriaeth i ddiwallu'r angen cynyddol hwn.
43. Mae angen inni hefyd ystyried effeithiau dirwasgiad posibl ar landlordiaid preifat yng Nghymru. Gallai dirywiad economaidd maith olygu bod llai o landlordiaid da yn gallu cynnig tai fforddiadwy i aelwydydd ar incwm isel. Mae hyn yn arbennig o bwysig i brosiectau Tai yn Gyntaf, gan fod angen landlordiaid sefydlog sy'n gallu ymrwymo i dderbyn cleientiaid ag anghenion cymhleth.
44. Rydym yn bendant wedi gweld rhai canlyniadau positif nad oeddem wedi'u rhagweld ac mae'r rhain wedi deillio o'n hymateb i'r pandemig coronafeirws; mae llawer o'n staff a defnyddwyr gwasanaeth wedi sylwi ar fwy o ymdeimlad o gymuned a bod pobl yn fwy parod i helpu'i gilydd; mae cleientiaid wedi dod yn fwy hunan ddibynnol a hyderus i wneud pethau heb yr un lefel o gymorth uniongyrchol maent wedi arfer ei

gael; ac rydym wedi newid rhai o'n patrymau gweithio i siwtio anghenion ein staff yn well. Rydym yn gobeithio y gwelwn y canlyniadau positif hyn yn parhau am amser hir eto.

45. Rydym yn gobeithio adeiladu ar yr holl waith da hwn i fod yn fwy cydweithredol, gofalgar a sensitif i anghenion ein staff a defnyddwyr gwasanaeth. Ni allwn anghofio bod ein staff wedi mynd gam ymhellach na'r angen yn ystod yr argyfwng, ac mae angen inni gydnabod y straen a'r trawma maent yn cael eu hamlygu iddo, ac i wneud popeth a allwn i wella lefelau cadw staff.

## Casgliadau a'r camau nesaf

46. Mae'r sefyllfa yn fyd-eang ers mis Mawrth 2020 wedi golygu her heb ei thebyg i'r Wallich, ac yn yr un modd i bob sefydliad sy'n gweithio yn y sector tai a thu hwnt; fodd bynnag, rydym yn teimlo ein bod wedi wynebu'r her mewn ffordd na fyddem wedi credu a oedd yn bosibl cyn hyn.
47. Mae gwaith awdurdodau lleol a phartneriaid yn y sector tai i gartrefu dros 800 o unigolion a oedd yn arfer cysgu allan ar strydoedd Cymru yn golygu ein bod o fewn cyrraedd, am y tro cyntaf mewn cenhedlaeth, i weld diwedd ar gysgu allan unwaith ac am byth. Mi wnawn bopeth posibl i weithio â'n cydweithwyr a'n partneriaid i wireddu'r weledigaeth hon.
48. Mae sefyllfa unigryw'r cyfyngiadau symud cenedlaethol wedi amlygu nifer o faterion eraill, gan gynnwys galw uchel am wasanaethau iechyd meddwl a cham-drin sylweddau arbenigol, llety preswyl i rai â ffyrdd o fyw anhrefnus ac anghenion cymhleth, gwasanaethau ataliol i rai mewn perygl o golli eu tenantiaeth, ac wrth gwrs yr angen am gartrefi fforddiadwy o bob math.
49. Mae'r pandemig wedi dangos inni ba mor allweddol yw cartref da i iechyd cyhoeddus ac i lesiant corfforol a meddyliol. Mae'r argyfwng hwn wedi amlygu'r anghydraddoldeb enfawr rhwng aelwydydd a chymunedau, ac mewn rhai achosion pa mor annigonol yw llety dros dro ac argyfwng. Mae'n amlwg bod diffyg buddsoddiad mewn digon o dai cymdeithasol ac i drwsio neu uwchraddio cartrefi presennol o bob math o ddeiliadaeth. Dylai cartrefi da a'r hawl dynol i gael cartref fod yn elfen ganolog o'r cynllun adfer i Gymru.
50. Rydym yn mawr obeithio y bydd Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, fel ni, yn dysgu drwy'r argyfwng hwn sut i fynd i'r afael â'r problemau dwfn, sylfaenol yn ein cymdeithas: tlodi ac anghydraddoldeb, tai amhriodol, iechyd meddyliol a chorfforol, cam-drin sylweddau, cyflawnder troseddol, hawliau mewnfudo, a llawer mwy.
51. Rydym ni yn y Wallich yn barod i rannu ein profiad a'n harbenigedd i gynorthwyo yn yr ymdrech genedlaethol ym mhob ffordd y gallwn.

Gorffennaf 2020